Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Tariffau ynni symlach

**Taflen ffeithiau 107** 22.09.11 www.ofgem.gov.uk

**Nod cynigion Ofgem i ddiwygio tariffau yw ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ynni cartref gymharu prisiau a dewis bargen well. Ein nod yw gwneud hyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo cystadleuaeth rhwng cyflenwyr ac yn cefnogi arloesedd a dewis.**

## Rôl Ofgem

Rôl Ofgem yw hyrwyddo cystadleuaeth yn y sector ynni a diogelu buddiannau pob cwsmer ynni nawr ac yn y dyfodol. Ym mis Mawrth 2011, canfuom fod cystadleuaeth yn cael ei llesteirio drwy gyfuniad o gymhlethdod ynghylch tariffau cymhleth, ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr a diffyg tryloywder.

Ym mis Hydref 2011, cyflwynodd Ofgem ei ddewis fodel i fynd i'r afael â'r cymhlethdod ynghylch tariffau yn ogystal â'i ddiwygiadau manwerthu eraill megis llacio gafael y chwe chyflenwr Ynni Mawr yn y farchnad trydan cyfanwerthol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar gael yn y daflen ffeithiau: "Marchnadoedd manwerthu: adolygiad a chynigion ar gyfer gwella."

## Y Mater

Mae llawer o ddefnyddwyr o'r farn bod y farchnad ynni yn gymhleth ac yn anodd ei deall. Dim ond ychydig o bobl sy'n mynd ati i chwilio am fargeinion gwell ac yn croesawu cael y dewis.


Mae ein gwaith ymchwil i ddefnyddwyr yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn deall y farchnad ynni ac felly mae'n bosibl eu bod yn talu mwy nag sydd ei angen am nwy a thrydan.

Er mwyn eu helpu i gael bargen decach, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â chymhlethdod y farchnad drwy

- leihau nifer y tariffau safonol,
- cyflwyno pris uned sengl fel y gall defnyddwyr ddewis y tariff safonol rhataf yn haws
- sicrhau bod cyflenwyr yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n llawer mwy eglur a hawdd ei deall.

Yn seiliedig ar dystiolaeth o'n gwaith ymchwil ymhlith defnyddwyr, mae Ofgem a'r rhan fwyaf o'r grwpiau defnyddwyr o'r farn bod angen i dariffau fod yn symlach i helpu defnyddwyr i'w cymharu a newid cyflenwr.

**Gwybodaeth sydd ei hangen arnoch ar hyn o bryd i weithio allan y tariff safonol neu'r tariff bytholwyrdd rhataf**




*noder: dim ond cynigion safonol/bytholwyrdd y mae'r diagram hwn yn eu cynrychioli, nid yw'n cynnwys opsiwn tymor penodol nac opsiynau tariff eraill a all fod ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd neu o dan y cynigion newydd.

## Ein cynigion

Ym mis Hydref 2011, penderfynodd Ofgem ar fodel arfaethedig er mwyn symleiddio tariffau:

**Tariffau safonol** - unrhyw dariff nad oes iddo ddyddiad dod i ben penodol. Fel arfer mae hawl gan y cyflenwr i newid y pris - er ein bod bellach wedi sicrhau bod cyflenwyr yn ysgrifennu at ddefnyddwyr o leiaf 30 diwrnod cyn i'w prisiau godi. Rydym yn cynnig y canlynol:

- Dim ond un tariff safonol y gall pob cyflenwr ei gael fesul dull talu fesul tanwydd. Y tri dull talu yw debyd uniongyrchol, mesurydd rhagdalu, a chredyd safonol, fel cardiau credyd, sieciau ac ati.
- Bydd defnyddwyr yn cael pris uned syml a thâl sefydlog penodol a bennir gan Ofgem - a fydd yn eu galluogi i ddewis y tariff safonol rhataf yn haws.

Bydd y newidiadau hyn yn cynnig mwy o wybodaeth dryloyw a chymaradwy am brisiau ynni. Byddant hefyd yn mynd i'r afael â'r dryswch ynghylch nifer y tariffau ac yn galluogi pobl i weld yn gyflym a allant arbed arian drwy newid cyflenwr neu symud i fargen newydd. Mae hyn yn newid mawr gan y bydd mwy o dryloywder yn helpu pob cwsmer.

**Tariffau mwy arloesol** - Rydym yn cynnig y dylai pob tariff arall fod yn dariff tymor penodol gyda dyddiad dod i ben penodol a thelerau ac amodau penodol. Rydym yn cynnig y canlynol:

- Ni fydd cyfyngiadau o ran nifer y contractau tymor penodol, eu math, eu strwythur na'u hyd gan gynnwys dirwyon am adael.
- Caiff telerau ac amodau, gan gynnwys y pris, eu pennu ar ddechrau'r contract ac ni allant newid am hyd y contract tymor penodol. (Er na fyddai pris yn sefydlog ar gyfer tariffau sy'n tracio).
- Caiff cyflenwyr eu gwahardd rhag adnewyddu contractau'n awtomatig ar ddiwedd contract. Felly bydd cwsmeriaid nad ydynt yn ymrwymo i fargen newydd pan fydd eu contract tymor penodol yn dod i ben yn trosglwyddo i'r tariff safonol. Bydd ganddynt y rhyddid i newid cyflenwr hefyd.
- Rheolau llym o ran gwybodaeth eglur a sicrhau bod y cwsmer yn deall y telerau.

Byddai tariffau tymor penodol yn galluogi cyflenwyr i barhau i arloesi a rhoi dewis gwirioneddol i'w cwsmeriaid.

## Cymharu a dewis

Rydym yn cynnig y canlynol:

- Arddangos pob pris ynni mewn punnoedd a cheiniogau, er enghraifft '£/mis' yn ogystal â 'p/kWh'. Mae ein gwaith ymchwil i ddefnyddwyr yn dweud wrthym y gall defnyddwyr ymateb yn well i wybodaeth a gyflwynir yn y ffordd hon. Bydd yn gyfwerth â chymhariaeth 'APR' ar gyfer nwy a thrydan.
- Bydd yn rhaid i gyflenwyr gyhoeddi pris pob un o'u tariffau yn yr un ffordd fel y gall defnyddwyr gymharu rhwng tariffau safonol a thariffau tymor penodol.

Bydd hyn yn sicrhau gwell tryloywder fel y gall defnyddwyr gymharu tariffau safonol â thariffau tymor penodol mwy arloesol.

## Y Camau Nesaf

Bydd Ofgem yn cyhoeddi cynigion manwl ym mis Tachwedd ar gyfer ymgynghoriad, gan gynnwys cynigion i ddiwygio'r farchnad ynni annomestig. Yn dilyn adolygiad o ymatebion yr ymgynghoriad, mae Ofgem yn bwriadu cyhoeddi ei chynigion terfynol ac ymgynghori ar newidiadau i amodau trwydded cyflenwyr yr haf nesaf gyda phenderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn yr hydref. Mae hyn yn golygu y gallai rhai o'n cynigion gael eu gweithredu erbyn gaeaf 2012 ar yr amod bod y diwydiant yn llwyr gefnogi ein diwygiadau.

Ar gyfer ymholiadau cyhoeddus, cysylltwch â'r:

**Tîm Materion Defnyddwyr** 020 7901 7295 e-bost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â'r cyfryngau, cysylltwch â:

**Lydia Fitzpatrick, Uwch Swyddog Cyfathrebu** 020 7901 7419 e-bost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk
**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** 020 7901 7225 e-bost: chris.lock@ofgem.gov.uk